# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**7 yh nos Fawrth Ebrill 29 2025**

**COFNODION**

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith(Cadeirydd) ; Jeremy Davies; Carol Hayes; Glenda Murray; Michael Roberts; Karena Owens
Marian Roberts ( Clerc); Elfyn Lewis ( Darpar Glerc)
**Absennol :- Cynghorwyr :-** Trefor Jones; Dr Melfyn Edwards; Llywelyn Rhys

**E1.4.25** **Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :-** Gwilym Jones; Alwyn Gruffydd

**E2.4.25** **Llwybrau –** wedi cadarnhau cytundeb Cyngor Gwynedd 2025 i 2028
Dim mwy i'w adrodd.

**E3.4.25** **Cae Bodawen** – y Clerc heb glywed yn ôl gan Arwel Lewis Jones na Phil Williams ynglyn â'r iawndal priodol gan National Grid am amharu ar y cae.

**E4.4.25** **Bryn Coffa –** clywyd fel y mae sbwriel yn broblem yn y safle. Bydd y Clerc yn casglu sbwriel yn achlysurol oherwydd ni ellir gofyn am wasanaeth y Tîm Tacluso gan mai tir sy'n eiddo i'r Cyngor Tref ydi o ac felly'r Cyngor Tref sy'n gyfrifol am ei gynnal.
**Penderfynwyd :-** y Clerc i baratoi rhestr / rota o Gynghorwyr i'w glirio unwaith y mis a'i roi gerbron y Cyngor i benderfynu arno ar 13.5.25

**E5.4.25** **Cae Pawb -**

- Penderfynwyd ar **ddydd Sadwrn Mai 10 am 10 y bore** ar gyfer archwiliad mis Mai

**E6.4.25** **Llochesi Bws –** nodwyd bod lloches bws wrth y stesion wedi ei fandaleiddio.
**Penderfynwyd**:- cadw golwg ar y llochesi ac adrodd i'r Clerc unrhyw ddifrod pellach.

**E7.4.25** **Cerflun Mr. Madocks**
Dim i'w adrodd am y cerflun ond cadarnhaodd y Clerc y bydd bwrdd gwybodaeth Madocks yn cael ei osod yn ei le o fewn pythefnos.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.15

Marian Roberts ( Clerc)
30.4.25

DRAFFT

DRAFT